OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2008 No. 2439

# Rheoliadau Iechyd Meddwl (Ysbyty, Gwarcheidiaeth, Triniaeth Gymunedol a Chydsynio i Driniaeth) (Cymru) 2008

## RHAN 5

Trosglwyddo a Chludo

### Darparu gwybodaeth – trosglwyddo yn achos marwolaeth, analluedd etc. y gwarcheidwad

**31.** Oni bai bod y claf yn gofyn fel arall, pan freinir gwarcheidiaeth claf yn yr awdurdod gwasanaethau cymdeithasol lleol neu pan fo swyddogaethau gwarcheidwad, yn ystod analluedd y gwarcheidwad, yn cael eu trosglwyddo i'r awdurdod neu berson a gymeradwyir ganddo o dan adran 10 (trosglwyddo gwarcheidiaeth yn achos marwolaeth, analluedd etc. y gwarcheidwad), rhaid i'r awdurdod gwasanaethau cymdeithasol lleol cyfrifol gymryd camau rhesymol ymarferol i beri i'r person (os oes un) y mae'n ymddangos mai ef yw perthynas agosaf y claf gael ei hysbysu o'r breiniad hwnnw, neu yn ôl y digwydd, o'r trosglwyddiad cyn iddo ddigwydd neu cyn gynted ag y bo'n ymarferol wedi hynny.